

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps

Chwefror 2025

1. Y Bil Tybaco a Fêps

- Cyflwynwyd y Bil Tybaco a Fêps ("y Bil") i Senedd y DU ar 5 Tachwedd 2024. Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Bil yn ei ddisgrifio fel cam pwysig wrth greu Teyrnas Unedig ddi-fwg.¹
- Amcanion polisi datganedig y Bil yw cyflwyno mesurau i atal pobl rhag dechrau ysmegu byth a datblygu caethiwed i gynhyrchion tybaco, yn ogystal â chyflwyno mesurau i leihau fepio ymhlith pobl ifanc.²
- Mae'r Bil yn addasu, yn diwygio, yn ymestyn, ac yn ailddeddfu sawl mesur rheoli tybaco a fepio presennol i greu fframwaith deddfwriaethol cyson. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i sicrhau gweithrediad cyson y gyfraith, yn cau bylchau, ac yn gwella darllenadwyedd a gorfodi dilynol. Nod cyffredinol y Bil yw cysoni darpariaethau ar draws y DU, gan adeiladu ar y fframweithiau deddfwriaethol presennol sy'n berthnasol ar draws y DU.
- Cefnogir y Bil gan lywodraethau pob un o'r pedair gwlad, sy'n rhannu uchelgeisiau i roi terfyn ar ysmegu a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc.

¹ Y Bil Tybaco a Fêps: Nodiadau Esboniadol

² Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps



Casgliadau ac argymhellion

Casgliad 1. Nid yw mwyafrif y Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm na ddylai'r Senedd gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Casgliad 2. Rydym yn aros am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ganlyniad ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU o ran cymalau 34, 45, 95, 100, 123, 150 a 151.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog nodi sut y bydd gweithredu'r Bil yn cyd-fynd â gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, yn enwedig pe bai polisi'r DU a Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn amrywio yn y dyfodol.11

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru, gyda'i phartneriaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, ddarparu negeseuon mwy eglur i blant a phobl ifanc am beryglon iechyd hirdymor posibl caethiwed i nicotin a fepio, yn enwedig yng ngoleuni tystiolaeth y Gweinidog y dylai pobl ifanc osgoi fepio yn gyfan gwbl.17

Argymhelliad 3. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, ochr yn ochr â'i bwyslais ar atal drwy'r Bil hwn, bod cymorth priodol ar gael i'r bobl ifanc hynny sydd eisoes yn gaeth i nicotin. 18

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru asesu'r mecanweithiau gorfodi sy'n cyd-fynd â'r Bil er mwyn sicrhau ei hun eu bod yn ddigonol i gefnogi gweithrediad effeithiol y Bil. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom i amlinellu canfyddiadau'r gwaith hwn. 18

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd y swm llawn o gyllid canlyniadol Barnett i gefnogi'r mesurau cenhedlaeth ddi-fwg a fepio ymhlith pobl ifanc yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithrediad y mesurau hyn, gan gynnwys eu gorfodi. 19

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannu i Ash Cymru Wales. 19

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru:22

- gadarnhau pa un a yw'r pwerau dirprwyedig y darperir ar eu cyfer yng nghymal 92 y Bil o ran cynnwys a chyflasynnau fêps yn berthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig ac nid Gweinidogion Cymru;22

- cadarnhau, pe bai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dymuno gwneud gwahanol ddarpariaeth o ran gwahardd gwerthu rhai cyflasynnau fepio, y byddai angen iddynt gyflwyno eu deddfwriaeth sylfaenol eu hunain i wneud hyn;.....22
- nodi ei safbwynt o ran y ddau bwynt blaenorol.....22

2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Cefndir

- 5.** Ar 20 Tachwedd 2024, gosododd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant (y Gweinidog IMLI), femorandwm cydsyniad deddfwriaethol (y Memorandwm)³ ar gyfer y Bil gerbron y Senedd.⁴
- 6.** Cyfeiriwyd y Memorandwm at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor IGC"), a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ("y Pwyllgor DCC") i'w ystyried, â dyddiad terfyn gwreiddiol ar gyfer adrodd o 7 Chwefror 2025⁵. Estynnwyd hwn wedyn 28 Chwefror 2025.^{6 7}
- 7.** Ar 4 Chwefror 2025, ysgrifennodd y Gweinidog⁸ at y ddau Bwyllgor i'n hysbysu bod dau welliant wedi cael eu cyflwyno i'r Bil, ar gais Llywodraeth Cymru, o ran cymalau 168 a 170. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd ei bod mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 34, 150, a 151, a'i bod yn parhau trafodaethau ar gymalau 45, 95, 100 a 123.

Ein dull craffu

- 8.** Ystyriodd y Pwyllgor IGC ei ddull o graffu ar y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2024 a chytunodd i wahodd y Gweinidog IMLI i roi tystiolaeth lafar ar y Memorandwm ar 6 Chwefror 2025.
- 9.** Hefyd, ysgrifennodd y Pwyllgor at randdeiliaid â buddiant yn y materion a godwyd yn y Memorandwm, gan gynnwys cyrff GIG, colegau brenhinol perthnasol a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Mae rhestr lawn o ymgygoreion ynghyd â chopi o'n llythyr, a'r ymatebion a dderbyniwyd gennym, ar gael ar wefan y Senedd.⁹ Rydym yn ddiolchgar i'r rhai a ymatebodd yn y cyfnod byr yr oeddem yn gallu ei gynnig.

³ [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps](#)

⁴ [Y Bil Tybaco a Fêps](#)

⁵ [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps, Tachwedd 2024](#)

⁶ [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps, Rhagfyr 2024](#)

⁷ [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps, Ionawr 2025](#)

⁸ [Llythyr gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 4 Chwefror 2025](#)

⁹ [Senedd Cymru: Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Tybaco a Fêps](#)

Trosolwg

10. Mae paragraffau 5 i 14 y Memorandwm yn rhoi crynodeb o'r Bil a'i amcanion polisi. Yn gryno, nod y Bil yw cyflwyno mesurau i atal pobl rhag dechrau ysmegu byth a datblygu caethiwed i gynhyrchion tybaco, yn ogystal â chyflwyno mesurau i leihau fepio ymhlith pobl ifanc.

11. Mae paragraff 15 yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rydym yn archwilio materion sy'n ymwneud â'r darpariaethau hyn drwy gydol ein hadroddiad.

Safbwynt Llywodraeth Cymru, ac ymgysylltiad â Llywodraeth y DU

12. Yn y Memorandwm, nododd Llywodraeth Cymru fesurau craidd y Bil, gan gynnwys:

- Creu cenhedlaeth ddi-fwg, gan ddod â gwerthu cynhyrchion tybaco i ben yn raddol ledled y wlad a thorri'r cylch caethiwed ac anfantais drwy ei gwneud yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009;
- Galluogi rheoleiddio i gryfhau'r gwaharddiad presennol ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus er mwyn lleihau niweidiau ysmegu goddefol, yn enwedig o amgylch plant, teuluoedd a phobl sy'n agored i niwed;
- Gwahardd yr arfer o frandio, hyrwyddo a hysbysebu fêps a chynhyrchion nicotin yn fwriadol i blant, er mwyn atal y genhedlaeth nesaf rhag mynd yn gaeth i nicotin;
- Cryfhau gweithgarwch gorfodi er mwyn helpu i roi'r mesurau uchod ar waith a rhoi pwerau i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer manwerthu tybaco, cynhyrchion ysmegu llysiuol, papurau sigarêts, fêps a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac estyn y cynllun cofrestru manwerthu yn yr Alban.

13. Mae'r Bil yn bodoli ochr yn ochr â chymorth ehangach ar draws y gwasanaeth iechyd i gynhorthwy ysmygwyr i roi'r gorau iddi.

14. Cefnogir y Bil gan lywodraethau pob un o'r pedair gwlad sy'n "rhannu'r uchelgais o gael gwared ag ysmegu a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc".¹⁰ Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn datgan:

*"Er mai'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr (DHSC) oedd yn gyfrifol am arwain y broses o ddatblygu'r Bil, cafwyd cydweithrediad cryf a pharhaus rhwng Llywodraeth Cymru, DHSC, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrth ddatblygu'r polisi a'r Bil."*¹¹

*"Yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil, bu Gweinidogion Cymru yn cyfarfod â'r Gweinidogion yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am dybaco, ac yn gohebu â nhw, er mwyn trafod a chytuno ar waith rhynglywodraethol ar y mesurau, yr ymgynghoriad, ei ganlyniad, y dulliau o fynd ati o ran polisi, a'r broses o ddatblygu'r Bil."*¹²

15. Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi ei rhesymau am wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Tybaco a Fêps.¹³ Mae'n nodi:

*"Ysmegu yw un o brif achosion marwolaethau a salwch yng Nghymru o hyd. (...) gellir priodoli 10.7% ar gyfartaledd o'r holl farwolaethau yng Nghymru ymhlith pobl 35 oed a throsodd yn ystod y blynyddoedd hyn [2020-2022] i ysmegu. (...) Mae ysmegu hefyd yn ffactor risg ar gyfer canlyniadau gwael i famau a babanod, mae'n cynyddu'r risg o farw-enedigaethau yn sylweddol a gall achosi asthma mewn plant."*¹⁴

*"Bydd y Bil yn darparu newidiadau deddfwriaethol ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yn achub degau o filoedd o fywydau ac yn arbed biliynau o bunnoedd i'r GIG. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ledled y DU yn dangos cefnogaeth eithriadol i'r mesurau."*¹⁵

16. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

"O ystyried natur y broses rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â thybaco, fêps, tybaco llysieuol a chynhyrchion nicotin, a'r gofynion o ran hysbysebu a noddï cynhyrchion, ystyrir mai dull cydweithredol rhwng y pedair gwlad fyddai'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o weithio i Gymru a'r DU."

Fel man cychwyn, dylid sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn unfath ledled y DU neu o leiaf ledled Prydain Fawr. At hynny, hyd y gellir, dylai gael ei chyflwyno ar yr un pryd. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cynhyrchion sy'n dderbyniol mewn

¹⁰ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraff 8

¹¹ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraff 8

¹² Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraff 14

¹³ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraffau 182-194

¹⁴ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraffau 183-184

¹⁵ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraff 187

un rhan o'r DU yn gallu dod i mewn i ran arall o'r DU lle na fyddant yn bodloni'r rheoliadau o bosibl."¹⁶

17. Mae'n cloi drwy ddweud:

"Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod angen gweithredu ar sail y DU gyfan mewn perthynas â thybaco a fêps. Byddaf yn mynd ati i ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 45, 95, 100 a 123 ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn unol â hynny. Rwy'n cefnogi'r cynigion polisi yn y Bil yn gryf, ac felly rwy'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil hwn."

Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

18. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd y Bil yn gam pwysig i greu Teyrnas Unedig ddi-fwg. Mae wedi ceisio cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan ac eithrio cymalau 5, 13, 16-18, 25, 29, 33, Rhannau 2, 3 a 4, cymalau 95, 100, 109, 114-120, 123, 126, 127, 136-147, 153-159, 162 a 164 gan fod Llywodraeth y DU wedi barnu nad yw proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol ar gyfer y rhain.¹⁷

19. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU o ran cymalau 5, 13, 16-18, 33, Rhannau 2 a 3, cymalau 136-146, 153-159, 162 a 164.

20. Fodd bynnag, ceir safbwyntiau gwahanol o ran yr angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 25, 29, Rhan 4 a chymalau 95, 100, 109, 114-120, 123, 126 a 127. Nodir yn y Memorandwm:

*"Yn fy marn i, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i fater datganoledig sef iechyd y cyhoedd. O ganlyniad, yn unol â RhS29, mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd."*¹⁸

21. Cadarnhaodd y Gweinidog IMLI bod y cyfeiriad ym mharagraffau 179 a 180 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru at y ffaith nad yw'n proses y Memorandwm yn ofynnol ar gyfer gymal 147 yn gamgymeriad ac y byddai'n cael ei gywiro cyn ei gyflwyno i'r Senedd.

¹⁶ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraff 189

¹⁷ Y Bil Tybaco a Fêps: Nodiadau Esboniadol

¹⁸ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, paragraff 181

Pwerau dirprwyedig yn y Bil

22. Mae'r Bil yn cynnwys nifer fawr o bwerau dirprwyedig. Fel y nodir yn y Memorandwm Pwerau Dirprwyedig¹⁹, ceir 63 o fesurau sy'n cynnwys pwerau dirprwyedig newydd neu ddiwygiedig, y mae 17 ohonynt yn gymalau Harri'r VIII²⁰. Gofynnwyd i'r Gweinidog IMLI a oedd ganddi unrhyw bryderon y gallai cynifer o gymalau Harri'r VIII arwain at bwerau yn cael eu rhoi i Lywodraeth y DU i wneud newidiadau i reoliadau heb gyfranogiad y Senedd.

23. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"As you know, the policy in Welsh Government is not to allow that to happen and to call for consent in these areas, so that the powers do come to the Senedd and Welsh Ministers. These discussions are ongoing."²¹

24. Ychwanegodd Stephanie Barnhouse, Pennaeth Ymddygiadau Risg, Llywodraeth Cymru:

"The balance of powers in the Bill was closely looked at by Welsh Ministers and by the UK Government, and we think that the balance is the correct one in terms of where the powers will lie for Welsh Ministers to take action in regulations for areas that are within devolved competence."²²

Tystiolaeth yr ymatebwyr

25. Roedd cytundeb eang ymhlith ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod y Bil yn cydfynd â nodau iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'r strategaeth "Cymru Ddi-fwg," gan wneud dadl gref dros gydsyniad deddfwriaethol.

26. Cafodd y Bil gefnogaeth gref gan sefydliadau iechyd allweddol, gan gynnwys y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, a'i galwodd yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddiogelu plant a chenedlaethau'r dyfodol. Dywedodd y Gynghair Rheoli Tybaco mai'r Bil yw mesur iechyd cyhoeddus unigol mwyaf y genhedlaeth. Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru ac Asthma + Lung UK Cymru gefnogaeth gref hefyd.

¹⁹ Y Bil Tybaco a Fêps, [Memorandwm Pwerau Dirprwyedig](#), 5 Tachwedd 2024

²⁰ Cymalau mewn Bil sy'n galluogi gweinidogion i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau mewn Deddf Seneddol gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth sy'n destun gwahanol raddau o graffu seneddol yw 'cymalau Harri'r VIII'

²¹ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 52

²² Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 53

27. Cymeradwyodd ASH Cymru fesurau'r Bil i leihau'r defnydd o dybaco, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, gan nodi cefnogaeth y cyhoedd—mae 62% o oedolion Cymru a 58% o fanwerthwyr bach yn ffafrio codi'r oedran gwerthu tybaco.

28. Pwysleisiodd arweinwyr y GIG, gan gynnwys Conffederasiwn GIG Cymru, fod y Bil yn cyd-fynd â nodau iechyd cyhoeddus ehangach Cymru, yn enwedig y nod o genhedlaeth ddi-fwg erbyn 2030. Dywedon nhw:

“NHS leaders recognise the insufficiency of current measures and support additional legislative action to close gaps.”

29. Yn yr un modd, cefnogodd Cymdeithas Feddygol Prydain y Bil, gan bwysleisio y bydd ei fesurau yn helpu i fynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc, sy'n bryder cynyddol yng Nghymru. Dywedodd Asthma + Lung UK Cymru:

“Vaping, despite its harm reduction potential, is increasingly used recreationally by young people rather than solely as a cessation tool. Reports suggest as many as 25% of children aged 11-16 have tried vaping.”

30. Roedd Cymdeithas Busnes Fêps Annibynnol Prydain (IBVTA) yn cefnogi'r Bil yn gyffredinol ond pwysleisiodd yr angen am reoleiddio cymesur. Er ei bod yn cefnogi mesurau i ddiogelu pobl ifanc, rhybuddiodd yn erbyn canlyniadau anfwriadol a allai atal oedolion sy'n ysmegu rhag newid i fepio neu eu gwthio yn ôl i sigarêts. Dadleuodd yr IBVTA na ddylid rheoleiddio fepio, fel dull lleihau niwed, yn yr un ffordd ag ysmegu traddodiadol, gan dynnu sylw at y gwahaniaethau o ran effeithiau iechyd.

Ein barn ni

31. Mae mwyafrif ohonom yn cefnogi egwyddorion y Bil Tybaco a Fêps i greu cenhedlaeth ddi-fwg, i leihau'r defnydd o dybaco ac i helpu i fynd i'r afael â phroblemau fepio ymhlith pobl ifanc. Ysmegu yw'r achos unigol mwyaf o farwolaeth gynnar y gellir ei hosgoi yng Nghymru, ac mae marwolaethau y gellir eu priodoli i ysmegu fwyaf cyffredin yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n achosi niwed sylweddol i fabanod, plant a phobl ifanc, a hefyd yn hynod gostus i'r GIG. Er nad ydym yn deall eto y risg hirdymor i iechyd a achosir gan fepio, mae'r hyn sy'n ymddangos fel cynnydd pryderus i fepio, yn enwedig ymhlith plant oedran ysgol uwchradd, yn peri pryder i ni. Drwy'r nod o greu cenhedlaeth ddi-fwg, lleihau dibyniaeth ar nicotin a lleihau niwed ysmegu goddefol, credwn y bydd y Bil yn gyfraniad pwysig at welliant hirdymor i iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

32. Rydym yn nodi bod y Bil yn cael ei gefnogi gan lywodraethau'r pedair gwlad yn y DU, ac y bu cydweithio rhwng y llywodraethau wrth ddatblygu'r polisi a'r Bil ei hun. Rydym yn cefnogi'r dull pedair gwlad hwn.

33. Mae gennym nifer o sylwadau ar rannau penodol o'r Bil. Cyflwynir y rhain yng ngweddill yr adroddiad hwn.

34. O ran y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydym yn nodi asesiad y Gweinidog o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd. Hefyd, rydym yn nodi'r gwahaniaeth mewn safbwyntiau Llywodraethau Cymru a'r DU o ran cymalau 25, 29, Rhan 4 a chymalau 95, 100, 109, 114-120, 123, 126 a 127, a bod y Memorandwm yn gofyn am gydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn.

35. Rydym hefyd yn nodi'r cywiriadau sydd i'w gwneud, gan y Gweinidog, i baragraffau 179 a 180 y Memorandwm, ac y bydd hyn yn cael ei wneud cyn ceisio cydsyniad y Senedd.

Casgliad 1. Nid yw mwyafrif y Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm na ddylai'r Senedd gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

36. Ni allai rhai Aelodau gefnogi'r Memorandwm ar sail pryderon am natur hirdymor, 'genedlaethol' y Bil a nifer y pwerau Harri'r VIII sydd wedi'u cynnwys ynddo.

37. Fe wnaeth un Aelod ddatgan ei wrthwynebiad, mewn egwyddor, i ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru – ac iechyd y cyhoedd yn benodol, gael ei deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU. Rydym yn nodi sicrwydd cryf y Gweinidog na fydd y Bil yn sicr yn trosglwyddo pwerau yn ôl i Lywodraeth y DU i wneud penderfyniadau a rheoliadau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli.

38. Rydym yn nodi llythyr y Gweinidog o 4 Chwefror 2025, lle mae'n cadarnhau ei bod yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 34, 150, a 151, ac yn ceisio ymgysylltu ymhellach o ran cymalau 45, 95, 100 a 123. Mae'n dweud y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad y trafodaethau hyn cyn gynted â phosibl.

Casgliad 2. Rydym yn aros am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ganlyniad ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU o ran cymalau 34, 45, 95, 100, 123, 150 a 151.

39. Darperir ar gyfer nifer sylweddol o bwerau dirprwyedig yn y Bil, gan gynnwys pwerau Harri'r VIII. Trafodir y rhain mewn cryn fanylder yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac rydym yn nodi bod y Pwyllgor yn gofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar nifer o bwytiau yn y maes hwn. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn rhannu ei hymateb i'r Pwyllgor hwnnw gyda ni.

40. Yn ehangach, hoffem gofnodi ein barn bod pwerau Harri'r VIII, yn ôl eu natur, yn tanseilio craffu seneddol trwy alluogi deddfwriaeth sylfaenol i gael ei diwygio gan is-ddeddfwriaeth, â chyfleoedd cyfyngedig i Aelodau'r Senedd fod yn rhan o graffu ar gynigion polisi.

41. Ar wahân, byddem yn gwerthfawrogi rhywfaint o eglurder gan y Gweinidog o ran y rhyngweithio rhwng y Bil a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA). Mae iechyd yn faes pwnc sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth, ac yn hanesyddol mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu safbwynt rhagweithiol ar reoli tybaco, gan weithredu rheoliadau llymach cyn gwledydd eraill y DU yn aml. Er bod y Bil wedi'i seilio ar ddull pedair gwlad, pe bai polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn amrywio yn y dyfodol, hoffem ddeall sut y bydd gweithredu unrhyw amrywiadau polisi yn cael ei effeithio gan weithrediad UKIMA, ac yn benodol a fyddai'r Bil yn atal amrywiad o'r fath pe ystyriwyd ei fod yn cael effaith ar fasnach.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog nodi sut y bydd gweithredu'r Bil yn cyd-fynd â gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, yn enwedig pe bai polisi'r DU a Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn amrywio yn y dyfodol.

3. Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin

42. Mae Rhan 1 y Bil (cymalau 10-12) yn ymwneud â gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin. Mae'r cymalau hyn yn cyfyngu gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin. Mae cymal 10 yn ei gwneud yn drosedd gwerthu cynnyrch fepio neu nicotin i berson sydd o dan 18 oed. Mae cymal 11 yn ei gwneud yn drosedd i berson 18 oed neu hŷn brynu, neu geisio prynu, cynnyrch fepio neu gynnyrch nicotin ar ran rhywun sydd o dan 18 oed, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel prynu drwy ddirprwy. Mae cymal 12 yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n rheoli safle fod â pheiriant gwerthu

cynhyrchion fepio neu nicotin ("peiriant awtomatig y gellir prynu cynhyrchion fepio/nicotin ohono") ar gael i'w ddefnyddio ar y safle.

43. Mae'r gyfran o bobl ifanc sy'n fepio wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru ac ar draws Prydain Fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf y ffaith ei bod wedi bod yn anghyfreithlon gwerthu fêp i unrhyw un o dan 18 oed ers 2015. Dangosodd ddata o Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion 2023 (a gynhelir bob 2 flynedd) fod cyfran y dysgwyr ym mlynyddoedd 7 i 11 yng Nghymru sy'n dweud eu bod yn fepio o leiaf unwaith yr wythnos yn 7% erbyn hyn, sy'n gynnydd o 2021 pan roedd yn 5.4% a 2019 pan roedd yn 2.7%.²³

44. Dywedodd y Gweinidog IMLI wrthym:

*"... teachers are saying that children are coming to secondary school from primary school addicted to vaping. Some of them are having to leave lessons two or three times to vape; they can't sit through their mock exams to be able to do that."*²⁴

45. Mae tystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dweud ei bod yn "briodol bod plant a phobl ifanc yn pryderu'n fawr am effeithiau iechyd, argaeledd ac amlygrwydd e-sigarets/fêpiau" a'u bod "eisiau gweld mwy o bwysau gan y llywodraeth i newid pethau".²⁵

Effeithiau iechyd fepio ar blant a phobl ifanc

46. Mae tystion yn cytuno, fel cynnyrch cymharol newydd, nad yw effeithiau hirdymor fepio yn hysbys eto.

47. Dywedodd Asthma + Lung UK bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu risgiau iechyd y cemegau a ddefnyddir i roi blas ar e-sigaréts, e.e. mae'r cyflasyn 'sinnamaldehyd' yn destun pryder, a chafodd cyflasynnau sy'n gysylltiedig â Fronciolitis Obliterans eu gwahardd o e-sigaréts wedi hynny.²⁶

48. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru:

*"Research with young people highlights widespread confusion of the relationship between nicotine and vapes, including a lack of knowledge about what nicotine is, the effects of addiction and the fact that it may or may not be present in vapes."*²⁷

²³ LCM TV10 Iechyd Cyhoeddus Cymru

²⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 26

²⁵ LCM TV05 Comisiynydd Plant Cymru

²⁶ LCM TV02 Asthma + Lung UK

²⁷ LCM TV10 Iechyd Cyhoeddus Cymru

49. Canfu tystiolaeth a gasglwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ystod grŵp ffocws gyda phobl ifanc fod rhai yn ystyried fepio fel dewis diogel yn hytrach nag ysmegu; mae eraill yn ymwybodol o'r risgiau ond yn ei wneud beth bynnag, tra bod rhai o'r farn bod fepio yn niweidiol ond ddim yn gwybod yn union pa mor niweidiol.²⁸

50. Dywedodd Ed Wilson, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Gwelliannau ac Anghydraddoldebau, Llywodraeth Cymru wrthym:

*"There is a bit of a misnomer, I think, sometimes, around the language we use around vapes, about 'safer' and 'healthier'. Our policy has always been as a Government that if you don't smoke, you shouldn't vape; it's not something we'd recommend people to take up."*²⁹

Cymorth i bobl ifanc sy'n gaeth i nicotin

51. Mae tystiolaeth gan BMA Cymru yn dweud bod fêps â nicotin yr un mor gaethiwus â sigarêts:

*"As more young people are vaping, driven largely by the rise in the use of disposable vapes, there are concerns that this frequent use is exposing them to the risk of addiction to nicotine. The nicotine contained in one disposable vape is approximately equal to two packs of cigarettes."*³⁰

52. Gofynnwyd i'r Gweinidog IMLI pa gymorth fyddai ar gael i bobl ifanc sydd eisoes yn gaeth i fêps/cynhyrchion nicotin. Dywedodd Ed Wilson bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar adnoddau i athrawon a rhieni sy'n rhoi cymorth a chyngor i helpu plant a phobl ifanc ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â fepio. Cyfeiriodd hefyd at y gwasanaeth Helpa Fi i Stopio am ddim, sy'n cael ei redeg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a ddefnyddiwyd yn draddodiadol i gynorthwyo ysmygwyr sy'n gaeth i dybaco, gan ychwanegu:

"Public Health Wales are working to alter that service now, so that it focuses on being a nicotine addiction service, so that regardless of the methodology that you are hooked on nicotine through, you will get that support, free and confidential advice and support, and

²⁸ LCM TV05 Comisiynydd Plant Cymru

²⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 31

³⁰ LCM TV01 BMA Cymru

looking at how we can support children and young people to come off nicotine as well.”³¹

53. Cadarnhaodd y Gweinidog IMLI bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, gan ddweud:

“we recognise that there will be that cohort, and we will make sure that they have that support.”³²

54. Aeth ymlaen i ddweud bod gan rai awdurdodau lleol bolisi o wahardd pobl ifanc sy'n cael eu canfod yn fepio o'r ysgol:

“This is something that teachers are very against, and would prefer us to be able to come at this from a completely different angle and work together to ensure that that isn't happening as well.”³³

55. Holwyd y Gweinidog IMLI am y cymorth a fyddai ar gael i gyrrff cyhoeddus ac addysgol i sicrhau bod pobl yn deall y ddeddfwriaeth newydd. Tynnwyd sylw gennym at brofiad sylweddol Ash Wales Cymru yn y maes hwn, a mynegwyd pryderon am eu gallu i barhau, yn dilyn y gostyngiad i'w cyllid.

56. Dywedodd y Gweinidog IMLI nad oedd y newidiadau i'r trefniadau cyllido gydag ASH Wales Cymru wedi'u bwriadu fel nad ydynt yn bodoli mwyach. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“A letter to ASH Wales Cymru confirming that their grant for 2025-26 will be at least £75,000 was issued in December, and officials will work with ASH Cymru to understand what work they could take forward in the 2025-26 financial year to support the tobacco control agenda, and detailed ministerial advice be submitted to me shortly. As soon I have an update, I will share that with the committee.”³⁴

Gorfodi gan awdurdodau pwysau a mesurau lleol

57. Mae Rhan 1, cymal 32, yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau pwysau a mesurau lleol i orfodi'r darpariaethau yn Rhan 1 y Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 14.

58. Dywedodd y Gweinidog IMLI y byddai angen dull gorfodi a chydymffurfiad cryf er mwyn i'r mesurau yn y Bil fod yn effeithiol. Aeth ymlaen i ddweud:

³¹ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 31

³² Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 40

³³ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 26

³⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 49

"We also will work with Trading Standards Wales to ensure that we are supporting officers to take rigorous enforcement of the existing legislation, and also deal with the illegal market, which will not be tolerated."³⁵

59. Fodd bynnag, tynnodd dystiolaeth gan Safonau Masnach Cymru sylw at nifer o heriau posibl wrth orfodi'r rheoliadau, gan gynnwys:

- pwerau gorfodi cyfyngedig i swyddogion awdurdodau lleol orfodi cosbau;
- anhawster yn dod o hyd i unigolion os cyflwynir hysbysiad tâl cosb i rywun na ellir ei adnabod yn rhwydd;
- pryderon diogelwch wrth gyflwyno hysbysiadau tâl cosb i aelodau gwrthdrawiadol o'r cyhoedd neu mewn lleoliadau lle ceir risg uwch o drais neu ymddygiad ymosodol;
- Yr angen am hyfforddiant priodol i sicrhau bod swyddogion awdurdodau lleol yn cyflwyno hysbysiadau tâl cosb yn gywir, yn gyson ac yn deg;
- llwyth gwaith cynyddol;
- costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno a gorfodi hysbysiadau tâl cosb.

60. Mae BMA Cymru ac Asthma + Lung UK yn tynnu sylw at yr angen am gyllid ac adnoddau ychwanegol i dimau Safonau Masnach fonitro cydymffurfriad yn effeithiol.

61. Mae BMA Cymru yn rhybuddio y gallai gorfodi'r Bil gael ei rwystro gan adnoddau a phwerau cyfyngedig i swyddogion Safonau Masnach. Maent yn annog mesurau atal cryfach, gan gynnwys cynyddu dirwyon i fanwerthwyr nad ydynt yn cydymffurfio i £10,000 o leiaf. Maent hefyd yn tynnu sylw at fylchau rheoleiddio mewn porthladdoedd ac ar ffiniau, gan ei gwneud yn anodd atal cynhyrchion fepio anghyfreithlon rhag cyrraedd y farchnad.³⁶

62. Codwyd pryderon gennym ynghylch y cynnydd posibl i werthu fêps heb eu rheoleiddio i bobl ifanc o ganlyniad i'r cyfyngiadau a orfodir gan y Bil gyda'r Gweinidog IMLI.

³⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 45

³⁶ LCM TV01 BMA Cymru

63. Mae tystiolaeth gan Ash Wales Cymru yn nodi:

"More than half (55%) of all pupils that vape reported using vaping products that are highly likely to be illegal, unregulated products that contain over 600 puffs. [] Concerns have also been raised about device safety and quality, with increasing numbers of non-compliant vaping devices / consumables seized by trading standards teams in Wales often containing higher levels of contaminants and nicotine than those permitted by UK law."³⁷

64. Awgrymodd Safonau Masnach Cymru bod angen strategaeth ar gyfer ymdrin ag effaith y ddeddfwriaeth ar y farchnad tybaco/fêps anghyfreithlon. Dywedodd:

"It is felt that legislation alone will not achieve this. There needs to be an emphasis on education and tackling illegal 'underground' sales once the legislation comes into force. This cannot be undertaken without adequate local authority resourcing."³⁸

65. Roedd y Gweinidog IMLI yn cytuno bod llawer o bobl ifanc eisoes yn prynu fêps anghyfreithlon a bod angen rhoi terfyn ar hyn. Cadarnhaodd y canlynol:

"We also will work with Trading Standards Wales to ensure that we are supporting officers to take rigorous enforcement of the existing legislation, and also deal with the illegal market, which will not be tolerated."³⁹

66. Cydnabuwyd gan y Gweinidog IMLI mai un o brif rannau'r Bil fyddai cryfhau'r system orfodi trwy ddarparu ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig newydd a'r potensial i hyn gynyddu'r pwysau ar awdurdodau lleol. Dywedodd y byddai'n ymgynghori ag awdurdodau lleol yn rhan o hyn.

67. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol a oedd wedi arwain at gyllid canlyniadol Barnett o £5 miliwn i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r mesurau cenhedlaeth ddi-fwg a fepio ymhlith pobl ifanc. Nid oedd y cyllid hwn wedi'i glustnodi, ond yn hytrach wedi'i ddyrannu i'r gronfa gyffredinol. Dywedodd bod opsiynau ar gyfer sut y byddai hyn yn cefnogi'r Bil yn cael eu hystyried.

68. Mae tystiolaeth gan Asthma + Lung UK yn nodi:

"The legislation takes important steps in regulating vaping products, particularly with restrictions on sales to under-18s and limits on advertising. However, greater clarity on the regulation of refillable

³⁷ LCM TV06 ASH Wales Cymru

³⁸ LCM TV03 Safonau Masnach Cymru

³⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 45

devices is needed to avoid manufacturers exploiting loopholes by producing ostensibly reusable but practically disposable products."

69. Codwyd y pryder hwn gennym gyda'r Gweinidog IMLI, a ddywedodd wrthym:

"As we know, this is a sector that is able to move very quickly and adapt very quickly, sometimes, around the policy and legislation that we try to put in place, as you pointed to. This wouldn't come under this LCM today. However, I am more than happy to go away and ask my officials to look into that for you, and we will be able to write to the committee with an update ."

Ein barn ni

70. Mae'r duedd gynyddol o fepio ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi ysmegu o'r blaen, yn peri pryder ac mae angen mynd i'r afael â hi. Roeddem yn arbennig o bryderus o glywed am blant sy'n cyrraedd oedran ysgol uwchradd sydd eisoes yn gaeth i fepio. Er bod fepio yn llai niweidiol nag ysmegu tybaco, nid yw'r effeithiau hirdymor yn hysbys eto, ac mae'n ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o'r niweidiau posibl sy'n gysylltiedig â fepio, gan gynnwys caethiwed hirdymor i nicotin.

71. Rydym yn deall bod rhywfaint o berygl o negeseuon cymysg i blant a phobl ifanc o ran fepio, o gofio ei fod yn cael ei annog ymhlith oedolion fel dull o roi'r gorau i ysmegu.

72. Er mai polisi Llywodraeth Cymru erioed fu "os nad ydych yn ysmegu, ni ddylech fepio", credwn fod angen rhagor o waith gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid i ddarparu negeseuon mwy eglur i blant a phobl ifanc am beryglon iechyd hirdymor posibl caethiwed i nicotin a fepio.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru, gyda'i phartneriaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, ddarparu negeseuon mwy eglur i blant a phobl ifanc am beryglon iechyd hirdymor posibl caethiwed i nicotin a fepio, yn enwedig yng ngoleuni tystiolaeth y Gweinidog y dylai pobl ifanc osgoi fepio yn gyfan gwbl.

73. Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi pwyslais y Bil ar atal, gyda'r nod o atal pobl ifanc rhag dechrau ysmegu neu fepio byth. Fodd bynnag, rydym yn poeni am y genhedlaeth bresennol o bobl ifanc sydd eisoes yn gaeth i nicotin ac sydd wedi dechrau fepio. Rydym yn nodi bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiwygio'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio i ganolbwyntio ar fod yn wasanaeth caethiwed i nicotin ond credwn y dylai pobl ifanc gael mynediad at gymorth o'r

fath mewn amgylchoedd sy'n llai ffurfiol ac yn fwy cyfarwydd iddynt. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ar argaeledd Therapi Disodli Nicotin ar gyfer pobl dan 18 oed.

Argymhelliad 3. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, ochr yn ochr â'i bwyslais ar atal drwy'r Bil hwn, bod cymorth priodol ar gael i'r bobl ifanc hynny sydd eisoes yn gaeth i nicotin.

74. Bydd gorfodi cryf yn allweddol i lwyddiant y ddeddfwriaeth ond mae gennym bryderon am yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol yn hyn o beth, yn enwedig o ran adnoddau cyfyngedig. Mae cyllid gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r mesurau cenhedlaeth ddi-fwg a fepio ymhlith pobl ifanc wedi arwain at gyllid canlyniadol Barnett o £5m i Lywodraeth Cymru. Gan nad yw'r cyllid hwn wedi'i neilltuo, rydym yn gofyn am sicrwydd y Gweinidog y bydd y swm llawn yn cael ei gyfeirio tuag at orfodi'r mesurau hyn.

75. Rydym yn parhau i bryderu am effaith bosibl y Bil ar werthu fêps heb eu rheoleiddio/anghyfreithlon i bobl ifanc, yn enwedig gan fod y Gweinidog wedi dweud wrthym y gallai'r rhain gynnwys fwy o nicotin, a chemegau niweidiol fel nicel a sinc. Dywedodd tystion wrthym ei bod yn anochel y bydd gwerthu fêps yn anghyfreithlon yn dal i ddigwydd ar ffurf gwerthu i bobl dan oed neu werthu cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau'r DU. Felly, credwn y bydd corff sylweddol o waith i Safonau Masnach o ran mynd i'r afael â'r gwerthu anghyfreithlon hwn a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol yn cael eu darparu iddynt i wneud y gwaith hwn.

76. Rydym yn nodi fod y Gweinidog wedi cadarnhau nad yw penderfyniadau cyllido ynghylch ASH Cymru Wales yn adlewyrchu newid i bolisi na blaenoriaethau'r llywodraeth. Rydym yn croesawu cydweithrediad y llywodraeth ag ASH i bennu blaenoriaethau ar gyfer 2025-26 i gefnogi'r agenda dybaco, sy'n allweddol i weithredu'r Bil hwn yn effeithiol. Rydym yn edrych ymlaen at glywed gan y Gweinidog ar ôl iddi dderbyn cyngor gan ei swyddogion.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru asesu'r mecanweithiau gorfodi sy'n cyd-fynd â'r Bil er mwyn sicrhau ei hun eu bod yn ddigonol i gefnogi gweithrediad effeithiol y Bil. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom i amlinellu canfyddiadau'r gwaith hwn.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd y swm llawn o gyllid canlyniadol Barnett i gefnogi'r mesurau cenhedlaeth ddi-fwg a fepio ymhlith pobl ifanc yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithrediad y mesurau hyn, gan gynnwys eu gorfodi.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannu i Ash Cymru Wales.

77. Er ein bod yn derbyn nad yw'n broblem i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, rydym yn pryderu y bydd gweithgynhyrchwyr yn dod o hyd i ffyrdd o osgoi'r rheoliadau o ran dyfeisiau y gellir eu hail-lenwi. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymchwilio i hyn ac ysgrifennu atom gyda'i chanfyddiadau.

Gofynion cynnyrch a gwybodaeth

78. Mae Rhan 5, cymalau 90-113 yn ymdrin â gofynion cynnyrch a gwybodaeth. Mae'r Rhan hon yn cynnwys cyfres o bwerau gwneud rheoliadau i alluogi gofynion i gael eu pennu o ran safonau cynnyrch, gan gynnwys pecynnu, nodweddion cynhyrchion, cynnwys a chyflasynnau.

Pecynnu a chyflasynnau

79. Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru, dangosodd astudiaeth o 2023 fod lliw, yn ogystal â brandio a chyflasynnau, wedi cynyddu apêl y cynhyrchion:

"Wrth drafod apêl pecynnu, y lliw gafodd ei godi a'i drafod amlaf gan y cyfranogwyr. Roedd lliw'r pecyn yn arwydd o'r blas, gan ei fod yn cyfateb i'r cyflas a hefyd i'r math o gynnyrch, gyda pheynnau lliwgar yn cael eu cysylltu â fêps tafladwy. Yn ogystal, gwelwyd bod pecynnau lliwgar yn ddeniadol i bobl ifanc a bod y cynhyrchion wedi'u dylunio ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn eu targedu."⁴⁰

80. Roedd Cymdeithas Busnes Fêps Annibynnol Prydain yn cytuno y dylid mynd i'r afael ag enwau emosiynol ar gyflasynnau a pheynnau 'cartŵn' i gael gwared ar agweddau y credir eu bod yn anghymesur o ddeniadol i blant.⁴¹ Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru, 'Yn syml, dylai cynhyrchion fêpio fod mor anneniadol â phosib i blant a phobl ifanc.'⁴²

⁴⁰ LCM TV05 Comisiynydd Plant Cymru

⁴¹ LCM TV08 Cymdeithas Busnes Fêps Annibynnol Prydain

⁴² LCM TV05 Comisiynydd Plant Cymru

81. Ochr yn ochr â pheycynnu lliwgar, dywedwyd wrthym fod cyflasynnau wedi cael eu cyflwyno i gael eu hyrwyddo'n fwriadol i apelio i bobl ifanc. Canfu ASH mai ffrwyth (59%), melys (16%) a mintys (6.9%) yw'r cyflasynnau fêps mwyaf poblogaidd.⁴³

82. Mae Philip Morris Ltd o'r farn y dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar ganiatáu cyflasynnau sy'n apelio'n bennaf i ysmygwyr sy'n oedolion (fel mintys, menthol a thybaco) ac a all eu helpu i newid, gyda'r defnydd o unrhyw gyflasynnau ychwanegol yn destun craffu llym i amddiffyn rhag defnydd anfwriadol:

*"Restrictions should prevent the use of child appealing elements and features for example, those relating to toys, cartoons, sweets, desserts, drinks including alcohol or energy drinks etc. These products are for adult smokers and adult nicotine users only, and they should be presented as such."*⁴⁴

83. Dywedodd y Gweinidog IMLI:

*"... young people have told us that they are being influenced by the colour of packaging, packaging marketed to children, advertising towards children, the appealing flavours []. These are all the things that we also want to prevent in Wales."*⁴⁵

84. Ychwanegodd Stephanie Barnhouse, Pennaeth Ymddygiadau Risg, Llywodraeth Cymru:

*"It's about making sure that we're not allowing the child-appealing elements of vapes, so looking at the flavours, the packaging, the placement in shops. And those powers will be through regulation, so we can adapt those and make sure they remain flexible."*⁴⁶

Fepio fel dull o roi'r gorau i ysmegu

85. Cododd nifer o dystion bryderon am effaith y rheoliadau ar allu oedolion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmegu gael mynediad at fêps fel dull o roi'r gorau iddi.

86. Dywedodd Asthma + Lung UK bod sicrhau mynediad teg at fêps y gellir eu hailddefnyddio a dulliau rhoi'r gorau i ysmegu effeithiol i oedolion sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmegu yn hanfodol i gydbwyso amddiffyn pobl ifanc ag ymdrechion lleihau niwed.⁴⁷

⁴³ LCM TV09 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru

⁴⁴ LCM TV07 Philip Morris Ltd

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 5

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 37

⁴⁷ LCM TV02 Asthma + Lung UK

87. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Busnes Fêps Annibynnol Prydain wrthym:

"The Bill must strike a crucial balance in terms of vaping regulation, by both preventing youth initiation of nicotine use and ensuring that dramatically less harmless alternatives for adult smokers continue to be accessible and attractive as a form of cessation. Since 2015, vapes have been recognised as effective harm reduction tools and are now incorporated into DHSC and NHS-funded cessation programs."⁴⁸

88. Roedd y Gweinidog IMLI yn cytuno bod fêps yn ddefnyddiol i rai ysmygwyr i'w helpu i roi'r gorau iddi, a chadarnhaodd:

"... we need to tackle the worrying rise in youth vaping and stop the next generation from ever participating. That is fundamentally what this Bill is about. So, it's not intended to stop adults from using vapes if they choose to. It doesn't apply to adults."⁴⁹

89. Gofynnwyd i'r Gweinidog IMLI sut y byddai Llywodraeth Cymru yn teilwra ei dull o ran grwpiau agored i niwed.

90. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"We do understand, of course, that smoking and vaping are very much linked to stress, and when you are under immense stress, when you are potentially in crisis, when you are not very well, to then also have the additional, you know, trying to come off what is a very acute addiction, it is a lot. So, with this as well, that is something that we would be very compassionate and understanding towards."⁵⁰

Ein barn ni

91. Fel yr ydym wedi ei nodi eisoes, mae'r cynnydd i fepio ymhlith pobl ifanc yn destun pryder. Mae'n amlwg bod pobl ifanc yn cael eu dylanwadu gan becynnu lliwgar a chyflasynnau melys, a bod rhai gweithgynhyrchwyr diegwyddor yn masnachu ar sail hyn. O'r herwydd, rydym yn cefnogi'r mesurau yn y Bil i ffrwyno fepio ymhlith pobl ifanc.

92. O ran cymal 92 yn benodol, yn ymwneud â chynnwys a chyflasynnau cynhyrchion perthnasol, h.y. cynhyrchion fepio, rydym yn nodi bod y grym i wneud rheoliadau o ran cynnwys a chyflasynnau yn rym penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac nid i Weinidogion Cymru. Ein dealltwriaeth o'r safbwynt hwn yw na fyddai

⁴⁸ LCM TV08 Cymdeithas Busnes Fêps Annibynnol Prydain

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 7

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 107

Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, pe bai'n dymuno gwneud gwahanol ddarpariaeth o ran gwahardd gwerthu rhai cyflasynnau fepio penodol, yn gallu gwneud hynny o dan y Bil ond yn hytrach byddai angen iddynt gyflwyno eu deddfwriaeth sylfaenol eu hunain. Os felly, gallai hyn fod yn arwyddocaol gan fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu safbwynt cryfach ar fêps na rhannau eraill o'r DU yn y gorffennol. Gofynnwn i'r Gweinidog gadarnhau bod ein dealltwriaeth yn gywir, ac i nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru:

- gadarnhau pa un a yw'r pwerau dirprwyedig y darperir ar eu cyfer yng nghymal 92 y Bil o ran cynnwys a chyflasynnau fêps yn berthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig ac nid Gweinidogion Cymru;
- cadarnhau, pe bai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dymuno gwneud gwahanol ddarpariaeth o ran gwahardd gwerthu rhai cyflasynnau fepio, y byddai angen iddynt gyflwyno eu deddfwriaeth sylfaenol eu hunain i wneud hyn;
- nodi ei safbwynt o ran y ddau bwynt blaenorol.

93. Cydnabyddir bod fepio yn llai niweidiol na chynhyrchion tybaco ysmegu, a bod llawer o ysmygwyr yn dewis defnyddio fêps i'w helpu a'u cefnogi i roi'r gorau i ysmegu. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog felly na fydd y Bil yn effeithio ar allu oedolion i gael gafaél ar fêps fel dull rhoi'r gorau i ysmegu.

94. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn teilwra ei dull o weithredu'r Bil o ran grwpiau agored i niwed.

4. Materion hawliau dynol

95. Er mwyn creu Teyrnas Unedig ddi-fwg a sicrhau bod niweidiau ysmegu cyn lleied â phosibl, bydd y Bil yn creu cenhedlaeth ddi-fwg trwy ddod â gwerthu cynhyrchion tybaco i ben yn raddol ledled y wlad, (gan gynnwys cynhyrchion ysmegu llysieuol a phapurau sigarêts) fel na fydd y cynhyrchion hyn yn cael eu gwerthu'n gyfreithlon fyth i blant a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009.⁵¹

⁵¹ Y Bil Tybaco a Fêps: Nodiadau Esboniadol

96. Gofynnwyd i'r Gweinidog IMLI pa asesiad a gynhaliwyd o'r potensial ar gyfer her gyfreithiol o ran erthygl 8 (parch at fywyd teuluol a phreifat) ac erthygl 14 (peidio â dioddef gwahaniaethu) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

97. Dywedodd Ed Wilson bod Llywodraeth y DU wedi cynnal asesiad effaith a'i bod yn hyderus bod y Bil yn gydnaws â deddfwriaeth hawliau dynol. Aeth ymlaen i ddweud:

"There is also a separate school of thought around whether addiction is a choice. So, nicotine is a highly addictive substance. If you ask most smokers if they wished they could stop smoking, they would agree. And so, actually, being addicted to nicotine through any method takes a lot of choices away from you. But in terms of the actual question around the legality of it, UK Government have looked into that issue and are confident that it is compatible."⁵²

Ein barn ni

98. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog bod Llywodraeth y DU wedi asesu'r deddfwriaeth fel un sy'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r mwyafrif ohonom yn cymryd hyder o sicrwydd y Gweinidog ar y mater hwn. Fodd bynnag, roedd rhai Aelodau yn dal i fod yn bryderus y gallai'r agwedd hon fod yn destun her gyfreithiol yn y llysoedd.

⁵² Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2025, paragraff 118